

Ffermio Ceirw

KEITH WILLIAMS

Cyfnwidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio
Yr Alban
2019



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO



Cyflwyniad

Keith Williams ydw i, ac rwyf i'n ffermio fferm gwartheg biff a defaid yng nghanolbarth Cymru gyda'm gwraig a'm merch ieuengaf. Mae'n fferm 400 erw, lle'r ydyn ni'n cadw 800 o famogiaid ac 20 o fuchod sugno Duon Cymreig. Rydyn ni'n cyflenwi cig oen a chig eidion i Waitrose, gan besgi cynifer o'r stoc â phosibl ar laswellt.

Dechreuais edrych i mewn i ffermio ceirw pan ddechreuodd fy merch ieuengaf ddangos diddordeb yn y syniad. Gyda'r sefyllfa wleidyddol bresennol a'r ansicrwydd am y dyfodol, roeddem ni'n teimlo y byddai'n beth da tynnu'n ôl ychydig o'r farchnad ddefaid. Nid yw'r Deyrnas Unedig ond yn 70% yn hunan-gynhaliol â chig carw. Ar hyn o bryd ceir oddeutu 400 o ffermydd ceirw sy'n cadw 30,000 o geirw yn y Deyrnas Unedig. Mae'n ymddangos bod y farchnad yn tyfu, gyda'r defnyddiwr yn chwilio am gig 'iachach'. Nid oes llawer o fraster mewn cig carw, ond mae'r holl fitaminau a'r mwynau rydych chi'n eu cysylltu â chigoedd coch eraill ynddo.



Yr Hendy 2019

Nodau

Roeddwn i eisiau edrych ar:

- Sut byddech chi'n sefydlu'r seilwaith sydd ei angen i gadw ceirw?
- A fyddai ceirw yn gweddu gyda'n system ffermio bresennol?
- Beth yw'r prif broblemau wrth gadw ceirw?

- A oes marchnad ar gyfer y cynnyrch gorffenedig?

Penderfynom fynd i Gynhadledd Cymdeithas Parciau a Ffermydd Ceirw Prydain. Ymwelais hefyd â phedair menter ceirw newydd sydd oll wedi'u lleoli ar y ffin â'r Alban, gan gynnwys Sion Williams, Buccleuch Estate; Jim Logan, Pirntaton Farm; David McTaggart, Hallrule Farm; a Stuart Mitchell, Whitriggs Farm. Aethom hefyd i weld Gareth Jones ar Ystâd Rhug, sy'n sefydlu menter ceirw Sica, ac Andrew Morgan yng Nghanolfan Cig Carw Cymru. Mae'r ddau fusnes yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd. Roeddwn i'n awyddus i ymweld â lladd-dy, felly, euthum i weld cyfleuster sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gyfer ceirw yn Dovecote Park yn Pontefract. Mi wnes i hefyd fynd i weld Matt a Pippa Smith yng Nghernyw cwpl o weithiau yn ystod y flwyddyn i weld gwahanol gamau'r cylch ffermio ceirw, ac yn fwy diweddar, i weld y lladd-dy y maent wedi'i sefydlu.

Seilwaith

Ffensys

Y costau mwyaf wrth sefydlu fferm geirw yw'r ffensys, sy'n costio £10 y medr. Gallwch addasu ffensys defaid i weithio'n effeithiol ar gyfer ceirw drwy ddefnyddio polion ceirw ac ychwanegu haen arall o netin defaid uwchben y ffens bresennol, gan ddefnyddio weiers i glymu'r ddau wrth ei gilydd. Dewis arall ydy defnyddio chwe gwifren drydan ar bolion pren i ymestyn y polion. Rhaid ichi sicrhau bod y ffensys yn gorwedd yn erbyn y ddaear er mwyn stopio'r lloi rhag 'cuddio' oddi tanynt, a dianc. Byddai defnyddio hen farrau ochr ffordd bocs-broffil hefyd yn bosibl.

I ymestyn gatiâu, gallwch roi gât arall uwchben y gât gyntaf gan ddefnyddio pyst haearn bocs, neu eu hymestyn â physt pren a phlanciau pren wedi'u trin â chreosot. Lle bo modd, dylid gosod gatiâu mewn corneli er mwyn creu twmffat, a'i gwneud yn haws i'r ceirw eu gweld. Yn ddelfrydol, dylai'r caeau fod yn 10-12 erw (4-5 hectar) a dylid bod dŵr ar gael ym mhob cae. Mae tanciau dŵr yn well na ffosydd naturiol gan fod ceirw'n gallu gwneud cryn lanast mewn llefydd corsiog. Er hynny, mae ceirw yn debyg i ddefaid os cânt eu bwydo ar fwydydd gwlyb fel gwreiddiau, ac ychydig iawn o ddŵr ychwanegol maen nhw angen.

System drin

Mae yna ddewis da o systemau trin ceirw sy'n gweithio'n dda, gyda'r egwyddor sylfaenol o rannu'r grŵp yn ei hanner, ac yn ei hanner eto, nes eich bod lawr i un neu ddau i ddelio â nhw ar y tro. Wrth sefydlu system rhaid ichi feddwl am y canlynol:

- Mynediad cerbydau ar gyfer llwytho a dadlwytho. Gorau oll os yw'n arwain i mewn i'r siediau gaeaf, y gellir eu defnyddio i storio gwahanol grwpiau pan gaiff y lloi eu gwahanu oddi wrth yr ewigod.
- Mae cyflenwad dŵr a thrydan yn ddefnyddiol mewn system drin.
- Yn ddymunol, dylai'r system fod yn uwch na'r llwybr sy'n arwain ati, gan fod yn well gan geirw redeg ar i fyny.
- Yn ddelfrydol, dylid bod to ar y system.
- Gosodwch gyfleusterau a fydd yn eich galluogi i wahanu'r lloi oddi wrth yr ewigod, i ddal yr hyddod i dynnu eu cynn, i'w tagio a rhoi triniaeth lladd llyngyr iddynt.
- Cynhwyswch gyfleuster i bwysu'r ceirw.
- Ceisiwch osgoi corneli sgwâr os yw'n bosibl, gan fod ceirw'n hoffi rhedeg mewn cylch yn groes i'r cloc.
- Gan fod ceirw fel arfer yn afreolus, mae rhoi tywod, sglodion coed neu lwch lli ar lawr y system drin yn eu helpu rhag llithro.
- Byddem yn awgrymu ichi roi twll bach neu rwyllau yn y drysau er mwyn ichi allu gweld y ceirw, ac iddynt hwythau eich gweld chi.
- Fe'ch cyngorir i osod canllawiau a bordau mewn mannau gwasgu fel corneli, adwyon a chorlannau cadw. Bydd system ag ymylon llyfn yn helpu i gadw tagiau rhag cael eu rhwygo allan. Bydd y ceirw yn llai tebygol o anafu a chleisio'u hunain; mae hyn yn bwysig dros ben cyn anfon ceirw i'r lladd-dy.

Hyd yn oed y tu allan i'r cyfnod rhydio, wrth drin hyddod, peidiwch â mynd i mewn atynt heb fod rhyw fath o rwystr rhyngoch chi a nhw, neu sicrhewch eich bod yn gallu dianc oddi yno'n hawdd. Mae'n bwysig iawn gollwng y ceirw allan o'r system yn raddol fel nad ydynt yn rhedeg i mewn i unrhyw ffensys yn y lôn ar y ffordd yn ôl i'r caeau. Dylai'r llwybr neu'r rhedfa fod o leiaf 4 metr o led, gyda phob mynedfa'n cychwyn yn lletach na hynny i greu twmffat i mewn i'r rhedfa.

Mae dau brif fath o wasgfa (*crush*) i'w cael ar gyfer ceirw. Y math cyntaf yw gwasgfa â llawr sy'n cwmpo ac ochrau taprog; mae'r ceirw'n cerdded i mewn i'r wasgfa a chaiff y llawr ei ryddhau. Yna caiff y carw ei ddal gan ochrau llethrog y wasgfa. I ryddhau'r ceirw, caiff un ochr y wasgfa ei rhyddhau ac agorir y gât flaen, gan eu gadael allan.



Ffig 1. Gwasgfa â llawr sy'n cwmpo

Yr ail fath o wasgfa sydd ar gael yw un sy'n gwasgu; mae rhai'n gweithio â hydrolig ac eraill â llaw. Maen nhw ychydig yn wahanol. Drysau yw ochrau'r wasgfa sy'n gweithio â llaw, ac mae'r colfachau wedi'u gosod yn y corneli, yn groes i'w gilydd. Mae gan y drysau ochrau sydd wedi'u padio a rheilen uchaf fwy sydd wedi'i phadio, mae hwn yn dal y ceirw gerfydd eu hysgwyddau pan mae ar gau. Mae llenni i'w cael uwchlaw'r ochrau fel bod y ceirw yn dod i mewn heb weld pobl. Gellir tynnu'r rhain yn ôl wedyn i weithio ar yr anifail.



Ffig 2. Gwasgfa wasgu sy'n gweithio â llaw

Mae dwy ochr wedi'u padio i'r fersiwn gwasgu hydrolog, fel yr un sy'n gweithio â llaw, ond fod y ddwy ochr yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd â phistonau hydrolog a fydd yn symud y naill ochr, i mewn neu allan, i ddal neu ryddhau'r anifail. Mae'r ochrau'n codi neu'n gostwng hefyd, er mwyn eu haddasu pan fyddwch yn gweithio â hyddod, ewigod neu loi.



Ffig 3. Gwasgfa wasgu hydrolog

Gall gwasgfa gostio rhwng £3,500 a hyd at £20,000. Byddai system drin arferol ar gyfer ceirw yn costio tua £15-20,000.

Gaeafu Dan Do

Gan nad oes gan geirw gôt drwchus, mae'n lles iddynt gael lloches mewn tywydd garw. Caiff lloi sy'n cael eu diddyfnu ym mis Medi cyn y cyfnod rhydio, fel arfer eu cadw i mewn ar unwaith nes cânt eu troi allan ym mis Ebrill, neu hyd yn oed fis Mai – mae'n dibynnu ar gyflwr y ddaear a'r tywydd. Mae ceirw coch yn dda iawn am addasu i'r rhan fwyaf o gyflyrau tir. Neu, ar ôl iddynt addasu'n iawn i ddiets caled, gellir eu troi allan am gyfnod, unwaith eto, mae'n dibynnu ar y tywydd a chyflwr y ddaear. O ran siediau gaeafu, gall y lloi fod ar wellt neu mewn sied â llawr estyll.

Gellir yn hawdd addasu sied wartheg â netin neu reiliau i ymestyn y barrau a'r gatiâu presennol er mwyn gallu gwahanu'r ceirw'n effeithiol. Gellir bwydo'r ceirw mewn cafnau, a rhoi silwair iddynt (ar 10.5 ME yn ddelfrydol) neu wair mewn rheseli neu borthwyr cylch. Pa bynnag un a ddefnyddiwch, mae'n bwysig sicrhau bod digon o le iddynt fwyta oherwydd fe allai'r ceirw cryfaf wthio'r rhai gwannach i ffwrdd.

Nid yw awyru mor bwysig gan fod niwmonia yn anghyffredin iawn mewn ceirw. Fel arweiniad bras, dylech ganiatáu oddeutu 2m² i bob llo. Mae bwlio yn broblem eithaf

difrifol pan gânt eu cadw mewn dros y gaeaf, ond mae bwlio yn llawer llai o broblemau mewn lloi nag ydyw ymysg ewigod sy'n magu. Ar gyfer ewigod llawn dwf, mae'n angenrheidiol fel arfer ichi wahanu'r anifeiliaid sy'n cael eu bwlio a'u rhoi mewn corlan ag anifeiliaid eraill nad ydynt mor gryf.

Bydd ceirw yn dechrau colli eu cotiau gaeaf o ganol mis Rhagfyr ymlaen. Pan maent dan do, byddant yn colli mwy gan eu bod mor agos at ei gilydd. Gallant edrych yn flêr iawn pan ddaw'n amser eu gadael allan, ond buan iawn y bydd eu côt yn tyfu'n ôl pan fyddant allan unwaith eto.

Rhwng mis Rhagfyr a Chwefror mae ceirw yn cael 'saib' pan na fyddant yn egniol iawn a phrin yn tyfu, os o gwbl; y rhagdybiaeth yw bod hyn yn digwydd oherwydd dyma pryd y byddai eu cyflenwad bwyd, yn y gwyllt, ar ei leiaf. Pan gânt eu cadw dan do, mae ceirw'n diflasu'n hawdd a chredir mai dyma pam maent yn bwlio ei gilydd cymaint. Felly, mae'n lles iddynt gael rhywbeth i'w diddanu, drwy roi radio ymlaen, hongian pêl-droed neu fwi pysgota neu roi belen wellt iddynt neidio arni a'i chwalu eu hunain.

Cost stoc magu

Byddai ewig fagu a brynir yn 18-24 mis oed i fynd at yr hydd am y tro cyntaf yn costio oddeutu £450-£500. Bydd ewig yn byw am rhwng 14-16 mlynedd, a gall felly gynhyrchu 12-14 o loi. Byddai hydd 2 oed yn costio rhwng £1,800 a £3,000 yn ddibynnol ar ei eneteg, ei statws iechyd a'i gyrn. Mae gan hydd oes gweithio o tua 10 mlynedd.

Calendr Ffermio Ceirw

Canol Medi

- Dechrau rhoi porthiant atodol hyd at fis cyn dechrau'r cyfnod rhydio er mwyn gwella cyflwr yr ewig a rhag bod diddyfnu'n cael gormod o effaith ar y lloi.
- Diddyfnu'r lloi os dewiswch eu diddyfnu cyn rhydio. Dilyngyru, cofnodi rhyw, tagio a phwyso'r lloi.
- Nodi a chadw cofnodion o ewig heb gadair. Cwlio'r ewig sy'n sych o un flwyddyn i'r llall.
- Dethol yr ewigod yn grwpiau rhydio a chyflwyno'r hyddod ar gymhareb o 1 i 40.
- Dilyngyru os oes angen.
- Monitro'r glaswellt a chyflwyno silwair neu ddwysfwyd os oes angen.

Dechrau Tachwedd

- Tynnu'r hyddod oddi wrth yr ewigod rhag ichi gael lloi hwyr a'u rhoi mewn cae cysgodol â faint a fynnir o silwair.
- Ar ôl rhydio, diddyfnu'r lloi os na wnaed hynny eisoes.
- Sefydlu criwiau'r gaeaf a rhoi faint a fynnir o borthiant.
- Magu'r ewigod cadw 2 flwydd oed dros y gaeaf ar faint a fynnir o borthiant

Rhagfyr-Chwefror

- Monitro'r stoc ac addasu'r porthiant yn unol â'r tywydd.

Mawrth-Ebrill

- Rhoi mwy o ddwysfwyd i'r lloi sydd i mewn dros y gaeaf a gwahanu unrhyw rai sy'n cael eu bwlio.
- Monitro'r caeau a throï'r lloi allan ddiwedd Ebrill i Mai.
- Rhoi llai o borthiant atodol i'r ewigod wrth i'r glaswellt ddechrau tyfu.
- Archwilio'r ffensys i baratoi ar gyfer lloia.

Mai-Awst

- Monitro am llyngyr a drensio'n briodol.
- Rhoi oddeutu 8-10 o ewigod stoc i bob hectar (3 i bob erw) erbyn dechrau Mai yn barod ar gyfer lloia, gan sicrhau bod llefydd i'r ewigod guddio'u lloi. Gellir rhoi ewigod ar system bori gylchdro o ganol mis Gorffennaf ymlaen i sicrhau glaswellt o ansawdd digonol fel eu bod yn cynhyrchu cymaint â phosibl o laeth.
- Bydd y lloi ar eu traed ac yn sugno'n gyflym iawn ond byddant yn cuddio am y 3-5 diwrnod cyntaf. Gallant redeg yn gyflym iawn pan fyddant yn ifanc.
- Gall y lloi dyfu ar raddfa o 500 gram y dydd os yw'r ewigod ar laswellt o ansawdd da.
- Peidiwch byth â symud ewigod pan fyddant yn geni rhai bach. Byddant yn cuddio'r ceirw bach mewn brwyn a glaswellt, ac yn dod yn ôl atynt.
- Os cewch elain (carw bach) amddifad, oni bai bod hynny'n digwydd yn syth pan gaiff ei eni, nid oes llawer iawn y gallwch chi wneud gan fod ceirw'n meithrin bond cryf iawn a wnân nhw ddim sugno mam fabwysiadol na dim arall.
- Topio neu gynaeafu'r caeau cyn lloia i wella ansawdd y glaswellt at yr haf.

Canol Awst

- Torri cyn yr hyddod magu cyn gynted â maent wedi bwrw'r melfed, gan ddod ag ychydig i mewn ar y tro. Torrwch nhw i ffwrdd cyn iddynt sylweddoli bod eu cynr wedi caledu ac y gallant eu defnyddio fel arf. Rhoi drensh llyngyr a chopr os oes angen.

- Digornio'r hyddod blwydd mewn criwiau wrth iddynt fwrw'r melfed. Eu pwysu a'u dethol i'w lladd. (Pwysau byw targed ar gyfer hyddod yw 110kg a'r pwysau byw targed ar gyfer ewigod yw 88kg)
- Sefydlu caeau o ansawdd yn barod ar gyfer y cyfnod rhydio.

Problemau Iechyd

Awgrymwyd defnyddio bolws copr neu borthiant gwartheg a chopr atodol ynddo os gwelwch anifail sydd ddim yn edrych yn fodlon neu ddim yn ei gwneud hi cystal â gweddill y grŵp. Byddai triniaeth gopr fel arfer yn datrys y rhan fwyaf o'r problemau. Gall ceirw hefyd ddiodeff o llyngyr a llyngyr yr afu/iau ond gellir eu trin yn hawdd â drensh defaid arferol. Mae llyngyr yr ysgyfaint yn broblem arall hefyd. Mae ceirw yn gallu cael TB ond nid oes rhaid eu profi ar hyn o bryd.

Gall ceirw ddiodeff o'r Clwy' Cataraidd Malaen (MCF). Arwyddion arferol MCF yw

- gwres uchel
- nodau lymff chwyddedig
- y llygaid a'r trwyn yn rhedeg
- briwiau yn y geg a'r ffröen
- llid a llwydni yn y llygaid
- dolur rhydd.

Os caiff anifail ei heintio, yr oll gallwch ei wneud yw gwahanu'r carw sâl oddi wrth weddill yr haid.

Gall ceirw ddiodeff o Gryptosporidiwm. Gall hwn luosi ar y ddaear yn ystod y cyfnod lloia ac os yn bosibl, mae angen i'r ewig sy'n lloia'n hwyr gael eu symud i dir gwahanol. Nid yw ceirw'n diodeff o glwy'r traed, cynrhon na mastitis. Mae'n anghyffredin iawn i geirw gael problemau wrth loia hefyd. Gall ceirw hefyd ddal Johnes, ac awgrymir eich bod yn difa'r ceirw heintiedig. Mae cadw haid geirw gaeedig yn helpu i atal heintiau rhag lledaenu i'ch fferm. Mae'n dibynnu ar eich milfeddyg lleol, ond mae'n bosibl mai prin fydd y wybodaeth filfeddygol.

Marchnad ar gyfer Cig Carw

Mae cig carw yn gynnwys premiwm ac yn farchnad arbenigol. Ar hyn o bryd, mae'r dewisiadau ar gyfer marchnata yn eithaf cyfyngedig, ond Waitrose yw'r prif brynwr cig

carw; maent yn talu oddeutu £5/kg ar bwysau'r carcass. Y prif ddewis arall yw gwerthu eich cig carw yn uniongyrchol/mewn marchnadoedd ffermwyr. Rydych wrth gwrs yn mynd i gael prisiau llawer uwch, ond fod cost prosesu'r cig yn gost ychwanegol, yn ogystal â'r gwaith dosbarthu neu fod yn bresennol mewn marchnadoedd ffermwyr.

Crynodeb

I gloi, wrth ystyried ffermio ceirw, ceir cwpl o gymelliadau mawr gan gynnwys: nid yw'n llafurddwys, nid oes llawer o waith trin ac ychydig iawn o broblemau geni a gewch (yn wir mae'n well os cânt lonydd i loia). Byddai ffermio ceirw yn ffitio'n dda o amgylch amseroedd mwy prysur ffermio gwartheg biff a defaid. Gan nad yw'r anifail ond ychydig genedlaethau o'r gwyllt, ychydig o broblemau iechyd a geir oherwydd y byddai unrhyw broblemau wedi marw allan drwy ddethol naturiol.

Bu'r farchnad gyfredol yn tyfu 10% bob blwyddyn er mai man cychwyn isel iawn oedd ganddi. Mae tueddiadau defnyddwyr yn symud at gig sydd â llai o fraster ynddo, ac mae cig carw'n bodloni'r gofyn hwn.

Ceir anfanteision i ffermio ceirw hefyd. Y mwyaf o'r rhain yw'r costau sefydlu cychwynnol am ffensio a gosod system drin addas. Mae ewigod, am £450-£500 a hydd am £2,000, a'r gost o'u cadw hefyd yn sylweddol. Mae'n ymddangos bod y farchnad gyfredol (er iddi godi ar raddfa o 10% bob blwyddyn) wedi gwastatau ar hyn o bryd a cheir rhestr aros i gyflenwi'r cwsmer mwyaf. Pe byddai cwsmer newydd yn dod i mewn i'r farchnad, byddai'n cael effaith aruthrol.

Hefyd, gyda'r niferoedd ceirw cenedlaethol yn gwastatau bydd mwy o loi benyw yn dod i mewn i gadwyn gyflenwi'r cig. Pe ceid unrhyw broblemau iechyd, nid yw pob milfeddyg yn gwybod llawer am geirw, felly gallai hyn fod yn broblem. Fel dywedodd un ffermwr ceirw wrthyf, mae'r enillion yn debyg i flwyddyn dda â defaid, felly, dylech feddwl yn hir cyn buddsoddi ag arian sy'n cael ei fenthyca.

Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i'r bobl isod am eu holl help a'u harweiniad yn ystod fy ymchwil i ffermio ceirw.

Alan Sneddon

Andrew Morgan, Canolfan Ceirw Cymru

Cath a Fran Shaw
Claire Parkinson
David McTaggart, Hallrule Farm
Dovecote Park
Cyswllt Ffermio
Fergal Rice
Gareth Jones, Ystâd Rhug
Jim Logan a'r teulu, Pirntaton Farm
Matt a Pippa Smith
Fy merch Rebecca am ysbrydoli'r syniad ac am helpu i ysgrifennu fy adroddiad
Paul Finney
Rob Bunn
Sion Williams, Buccleuch Estate
Simon Pike
Cymdeithas Parciau a Ffermydd Ceirw Prydain
Teulu'r Mitchel, Whitriggs Farm